| Ymyrraeth | Mannau Gwyrdd a Diogel | | | Gwyrdd | Cynnydd yn unol â'r targed ar hyn o bryd |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Oren | Cynnydd heb fwrw'r targed, ond yn gyraeddadwy o hyd |
| Arwain | Steve Morgan a Huw Jakeway | Cyfnod Adrodd | Chwarter 2 2022-23 (Gorff - Medi) | Coch | Cynnydd ymhell o fwrw'r targed |

## Prif Gyflawniadau a Llwyddiannau

Mae'r Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel yn parhau i weithio'n dda, gyda lefelau cryf o ymgysylltu a phartneru. Sesiwn rhwydwaith wedi ei gynllunio Hydref 2022 i greu cyfleoedd i gydweithio a brwdfrydedd dros y weledigaeth hon ar draws nodau a rennir. Mae gwybodaeth ad hoc a anfonwyd i'r Rhwydwaith yn cynnwys yr adroddiadau, yr adnoddau a'r cyllid diweddaraf.

Cyflwynodd Casnewydd Fyw weithgareddau'r haf i deuluoedd â phlant 3 - 18 oed mewn parciau, mannau gwyrdd, ysgolion, a chyfleusterau Casnewydd Fyw. Cymerodd 3,800 o blant, pobl ifanc a theuluoedd ran, a darparwyd 1,600 cinio iach am ddim. Helpu i wella gweithgarwch corfforol, lles meddyliol ac emosiynol, ac ymgysylltu â chwaraeon a'r celfyddydau.

Cais am arian wedi ei gyflwyno i Gronfa Cydweithredu Asedau Llywodraeth Cymru ar gyfer dyluniadau manwl 4 o syniadau ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor, wedi'u cymryd o'r astudiaeth dichonoldeb Seilwaith Gwyrdd Canol y Ddinas (SG). Dogfen wedi ei rannu gyda rhanddeiliaid/partïon â diddordeb Gorffennaf 2022 ac wedi'i chyflwyno yn Fforwm SG Cymru a Phartneriaeth Tai ac Adfywio Canol y Ddinas.

Cyllidodd CNC ddadansoddiad toeau gwyrdd yng nghanol dinesig Casnewydd i dynnu sylw at doeau gwyrdd presennol, i amlygu ac annog cyfleoedd i ôl-ffitio toeau gwyrdd, ac i annog gosod toeau gwyrdd ar adeiladau newydd. Adroddiad gobeithio yn barod erbyn Tachwedd 2022.

Uwchgynllun Pilgwenlli sydd i fod i gael ei gyhoeddi Tachwedd 2022 yn cynnwys argymhellion i wella mannau gwyrdd.

Uwchgynllun y Maendy yn mynd rhagddo ac yn cynnwys gwaith a chynigion amrywiol ar gyfer mwy o seilwaith gwyrdd a gwelliannau i fannau gwyrdd.

Mewn partneriaeth, mae cynnig yn cael ei gyflwyno i adfer safle planhigfa Belle Vue fel lle i fyd natur gyda rhaglenni garddwriaethol i gefnogi iechyd meddwl a bwyta'n iach.

Mae cyfarfodydd partneriaeth parhaus a gwaith gan grŵp Cyfeillion y Ffordd at Natur yn parhau i wella'r ardal ac atal tipio anghyfreithlon, gyda gweithgareddau cymunedol yn digwydd.

Fel rhan o gyllid Strydoedd Saffach, maemae camerâu cylch cyfyng / goleuadau stryd ychwanegol wedi'u gosod ym Mharciau Capel, Stow Hill a Belle Vue. Cynnig i osod camerâu cylch cyfyng / goleuadau ychwanegol mewn gwahanol strydoedd ym Mhilgwenlli.

| Mesuriadau Perfformiad Allweddol | Targed | Gwirion-eddol | COG |
|---|---|---|---|
| % / hectarau o fannau glas a gwyrdd hygyrch *[Mynegai Mannau Gwyrdd \| Meysydd Chwarae Cymru] | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | |
| % Brigdwf coed *[Brigdwf y DU i-Tree] | Yn cael eu datblygu | | |
| Nifer o Safleoedd Pryfed Peillio CDC | 20 | ↑ 75 hectares | Gwyrdd |
| Aelodau'r rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diog | 100 | 124 | Gwyrdd |
| Nifer y bobl oedd yn bresennol yng ngweithdy diwethaf y Rhwydwaith | 30 | ↓ 26 | Oren |
| Agor cylchlythyr Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel | 130 | N/A | |
| Dilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol (Twitter) | 150 | ↑ 158 | Gwyrdd |
| [Olion twît ac ymweliadau â'r proffil] | 6,000 | ↓ 3,662 | Oren |
| Prosiectau cydweithredol gweithredol sy'n cyflawni gweledigaeth y Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel a [Seilwaith Gwyrdd] (SG) | 15 | ↑ 24 | Gwyrdd |
| Baneri Gwyrdd erbyn 2023: Cymunedol | 8 | 3 | Oren |
| Gwobr Lawn | 5 | 3 | Oren |
| Nifer y cynlluniau a strategaethau y mae'r weledigaeth Gwyrdd a Diogel / SG wedi'i hymgorffori ynddynt | 3 | 5 | Gwyrdd |
| Lleihau'r canlynol (mewn man glas gwyrdd): | (Ch1 2021 vs Ch1 2022) | | |
| Achosion o dipio anghyfreithlon | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | |

| |
|---|
| Lansiodd CDC gwrs Llythrennedd Carbon i'r cyhoedd sy'n 'eich helpu i ddeall eich ôl troed carbon ac yn dangos y camau y gallwch eu cymryd i leihau eich effaith ar y blaned.' |
| Mae CDC yn gweithredu argymhellion yr Asesiad Seilwaith Gwyrdd (ASG). Gan gysylltu â Phartneriaeth Grid Gwyrdd Gwent (PGGG) ar Strategaeth Seilwaith Gwyrdd Gwent. |
| Mae Prosiect Peillwyr Buglife yn parhau i wella ardaloedd ar gyfer peillwyr, dod â chymunedau ynghyd i ddarganfod natur a dathlu peillwyr lleol drwy weithgareddau diddorol a chynhwysol, yng Ngwarchodfa Natur Leol Sain Silian, Canolfan Mileniwm Pìl, Y Twmps yn Barrackswood a Y Ffordd at Natur. |
| Mae gwaith gan sawl partner a chymuned yn parhau yn Barrackswood gan gynnwys cael gwared yn barhaus ar dipio anghyfreithlon a gwaith cadwraeth ar raddfa fawr a chofnodi bioamrywiaeth. |
| Mae camau gweithredu ar y gweill fel rhan o gynllun Newid yn yr Hinsawdd Sefydliadol Cyngor Dinas Casnewydd 2022-2027 gan gynnwys thema Rôl Ehangach. Cyhoeddi'r adroddiad cynnydd cyntaf. |

| Prif Risgiau / Rhwystrau i gynnydd | Statws (U/C/I) | Camau Lliniaru / Y Cymorth Sydd ei Angen |
|---|---|---|
| Ni chymerwyd camau gweithredu Seilwaith Gwyrdd (SG) Canol y Ddinas a chyfleoedd ôl ffitio toeau gwyrdd fel eu bod yn weithredol. | **Canolig** | Archwilio rhwystrau a datrysiadau e.e., ffrydiau ariannu, cynnal a chadw, parhau i hyrwyddo'r gwerth a'r buddion lluosog (cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol). Sicrhau aliniad gyda chynlluniau adfywio a Chynllun Ynni Ardal Leol. |
| Capasiti a diddordeb cyfyngedig wrth wneud cais am safleoedd safon Baner Werdd newydd. | **Canolig** | Gweithio gyda Cadwch Gymru'n Daclus i ganfod a chefnogi safleoedd i wneud cais am y Faner Werdd. |
| Mae ymyrraeth mannau Gwyrdd a Diogel yn dod yn llai cydweithredol ac yn colli momentwm wrth bontio i Gynllun Llesiant BGC Gwent. | **Canolig** | Parhau i weithio gyda sefydliadau partner, grwpiau cymunedol a'r Rhwydwaith i ddarparu Ymyrraeth Gwyrdd a Diogel a throsglwyddo gwaith Gwyrdd a Diogel perthnasol i Gynllun Gweithredu Lleol Casnewydd, gan sicrhau aliniad gyda Chynllun Llesiant BGC Gwent. |
| Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel, sy'n hanfodol wrth gyflawni, yn cael ei ddiddymu ar ôl Mai 2023. | **Canolig** | Partners and Network to decide if and how Green & Safe Network can continue into Gwent PSB Wellbeing Plan from May 2023. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Digwyddiadau tân bwriadol | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | |
| Digwyddiadau eraill sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | |

Lles Cymru: Dangosyddion Cenedlaethol (25, 26, 28, 29, 38, 40, 43, 44)
Mynegai Lleoedd Ffyniannus - Casnewydd 2021 Lle ac Amgylchedd Cynaliadwyedd
MALIC - Hafan (llyw.cymru) Amgylchedd Ffisegol

## Cynlluniau ar gyfer y chwarter nesaf

| |
|---|
| Cynllunio gweithdy nesaf y Rhwydwaith ar gyfer Hydref 2022 i ddyfnhau'r gwaith partneriaeth a chyflawni nodau cyffredin. |
| Annog a chefnogi ceisiadau'r Faner Werdd ar gyfer Ionawr 2023. |
| Sicrhau cyllid ar gyfer 4 ymyriad SG yng Nghanol y Ddinas. Parhau i annog ac ymgysylltu â rhanddeiliaid canol y ddinas i roi'r SG ar waith gan gynnwys toeau gwyrdd. |
| Alinio dadansoddiad toeau gwyrdd gyda chynlluniau Adfywio a Chynllun Ynni Ardal Leol Casnewydd e.e., toeau solar bio. |
| Cefnogi camau perthnasol yng nghynllun Newid Hinsawdd Sefydliadol CDC gan gynnwys Defnydd Tir a Rôl Ehangach. |
| Parhau i gryfhau cysylltiadau â Chasnewydd Ddiogelach ac is-grwpiau. |
| Hyrwyddo mentrau tyfu bwyd, cyfleoedd gwirfoddoli, ac unrhyw brosiectau eraill ar draws y Rhwydwaith e.e., Gwyrddu Maendy Gyda'n Gilydd. |
| Cefnogi'r cynnig i adfer safle Belle Vue. |
| Cefnogi Uwchgynllun Maendy ac Uwchgynllun Pilgwenlli. |
| Cefnogi grŵp mannau Gwyrdd a Diogel Pìl a allai ganolbwyntio ar argymhellion Archwiliad Strydoedd Cymunedol Strydoedd Byw. |
| Parhau i hyrwyddo mannau gwyrdd a glas drwy borth Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB) Eich Casnewydd Eich Lles. |
| Canfod canlyniadau arolwg Strydoedd Saffach, Casnewydd Saffach ar sut i wella diogelwch ym mharciau Belle Vue, Capel a Stow Hill. Dan arweiniad Cyngor Casnewydd a Heddlu Gwent. |